# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 9

CYDLAFURIO A CHYFUNO

## PENNOD 1

CYDLAFURIO

### 161 Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig

Ar ôl adran 12 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewnosoder y canlynol—

“**12A Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig**

Wrth benderfynu p'un ai I arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 9(1) a 12 a sut I'w harfer, rhaid I awdurdod gwella Cymreig roi sylw I unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.”.